

Rheoli tir yn y sector amgueddfeydd a threftadaeth

Paratowyd gan M·E·L Research

Medi 2025



Gyda diolch arbennig i:

- Amgueddfa Werin Ulster
- Amgueddfa Hanes Naturiol
- Tŷ Hanesydool, Capel a Gerddi Ushaw
- Ymddiriedolaeth Treftadaeth Prestonpans (1745)
- Amgueddfa a Pharc Treftadaeth Dyffryn Maes Glas
- Gwaith Clai Wheal Martyn

A oedd yn ddigon hael i gynnal ein hymweliadau safle.



Delwedd y clawr blaen: Gilbert White a Chasgliad Oates



Pam ymchwilio?



Cefndir yr ymchwil

Er gwaethaf faint o dir sy'n eiddo i amgueddfeydd ac a reolir ganddynt, a phwysigrwydd hanfodol rheoli tir yng nghyd-destun amgueddfeydd a sefydliadau treftadaeth, mae bwlch mewn ymchwil gynhwysfawr, sector gyfan sy'n archwilio'r cyfleoedd a'r heriau a gyflwynir gan dir a mannau awyr agored.

Mae'r ymchwil hon yn ceisio dechrau llenwi'r bwlch gwybodaeth hwn trwy ddal ciplun o ymarfer ar draws amgueddfeydd ac ymchwilio i'r llu o rolau y mae tir yn eu chwarae o fewn y sefydliadau hyn.

Mae hyn yn cynnwys archwilio tir fel elfen o fodelau busnes; fel cyfrwng ar gyfer cefnogaeth cynulleidfa a chymuned; ac fel offeryn ar gyfer gwytnwch ac addasu hinsawdd.

Yng nghyd-destun yr adroddiad hwn, rydym yn cyfeirio at dir fel rhywbeth sy'n cwmpasu ystod o fannau gwyrdd a glas o wahanol feintiau - o ardaloedd awyr agored bach o fewn safleoedd trefol, i ddolydd, llynnoedd a gerddi, i dirweddau mwy (e.e. amgueddfeydd awyr agored ac atyniadau treftadaeth).

Casglwyd mewnwelediad drwy:

- Adolygiad cynhwysfawr o lenyddiaeth a pholisi
- Cyfweliadau manwl cychwynol gydag 17 o weithwyr proffesiynol y sector
- Arolwg ar-lein sy'n agored i amgueddfeydd a sefydliadau treftadaeth ar draws y sector (n=52)
- Cymuned ar-lein sy'n hwyluso cyfathrebu traws-sector
- 6 ymweliad safle i ddeall ymarferoldeb strategaethau rheoli tir a llunio astudiaethau achos o 'arfer gorau'.

Y cyd-destun a'r heriau presennol



Amgueddfa Avoncroft, Llundain, David Viner

Mae heriau diweddar i'r sector yn gofyn i amgueddfeydd fynd y tu hwnt i gadwraeth a dehongli arteffactau, ac arallgyfeirio eu rolau

Mae'r heriau sy'n wynebu'r sector diwylliant a threftadaeth wedi cynnwys Pandemig Covid 19 (pan orfodwyd 90% o amgueddfeydd ledled y byd i gau, gan newid barn ac ymddygiad ymwelwyr), a mwy o bwysau ariannol.^{1'2}

O ganlyniad, mae amgueddfeydd a sefydliadau treftadaeth yn cael eu hannog i arallgyfeirio eu nodau strategol i fod yn "3-elfen", gan ystyried eu cyfraniadau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol er mwyn goroesi.^{3'4}



Ydy Amgueddfeydd yn gallu Wynebu'r Her: Paratoi Amgueddfeydd ar gyfer yr Oedran Cyfranogi

Grym a Braint yn Amgueddfa'r 21ain Ganrif



Yng ngoleuni ymwybyddiaeth gynyddol o'r hinsawdd, mae gan reolwyr tir gyfle posibl

Mae pobl yn fwyfwy ymwybodol o'r argyfwng hinsawdd, ac mae ganddynt fwy o bryder amdano. Mae Cyngor Rhyngwladol yr Amgueddfeydd (ICOM) yn teimlo bod amgueddfeydd mewn sefyllfa berffaith i fynd i'r afael â chynaliadwyedd gan eu bod yn gallu gweithio gyda chymunedau i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd, cefnogi ymchwil a chreu gwybodaeth i gyfrannu at lesiant.⁵

Fodd bynnag, nid yw graddfa'r cyfle a'r effaith yn glir gyfrifadwy yn y DU gan fod bwlch gwybodaeth ynglŷn â faint o dir sy'n cael ei weithredu gan amgueddfeydd a sefydliadau treftadaeth.



Mae gwerth mannau awyr agored yn natblygiad rôl gymdeithasol amgueddfeydd yn cael ei gydnabod yn dda

Dylai amgueddfeydd sydd â pharciau a gerddi ystyried integreiddio rhaglenni o weithgareddau creadigol wedi'u hysbrydoli gan gasgliadau awyr agored a dan do sy'n caniatáu ymgysylltu â natur, celf a lles.⁶

Mae enghreifftiau o ryngweithio yr amgueddfa a'r mannau awyr agored i gyflawni nodau cymdeithasol-ddiwylliannol yn cynnwys:



Creu lleoedd diwylliannol



Gwella mynediad diwylliannol a threftadaeth ar gyfer cynulleidfaoedd sydd wedi'u heithrio



Presgripsiynu cymdeithasol

Ac mae rhai amgueddfeydd yn dechrau defnyddio eu tir i wella canlyniadau amgylcheddol yn weithredol

Lle mae enghreifftiau cyhoeddedig yn bodoli, mae'r rhain yn tueddu i fod o sefydliadau sydd ag adnoddau da, gan amlinellu'r hyn sydd wedi'i wneud, ac heb ddarparu arweiniad ar sut i gyflawni integreiddio tir mewn strategaeth.




NMDC – Adroddiad Amgueddfeydd Gwyrdd⁷

Roedd yr adroddiad hwn yn dogfennu astudiaethau achos gan aelod-sefydliadau sydd wedi defnyddio eu casgliadau i gynnal ymchwil bioamrywiaeth a hysbysu cynulleidfaoedd am faterion amgylcheddol, ynghyd â chyflwyno arferion mwy cynaliadwy ar eu safleoedd.



English Heritage – Kings Meadows⁸

I ddathlu coroni'r Brenin Siarl III, ymrwymodd English Heritage i adfer a gwella 100 o ddolydd ar draws eu safleoedd, gan wrthdroi colli bioamrywiaeth.



Tate Modern – Arbed dŵr⁹

Mae'r Tate Modern wedi cyflwyno mesurau cadwraeth dŵr, gan gynnwys defnyddio dŵr glaw yn eu proses fflysio toiled a lleihau'r defnydd cyffredinol o ddŵr ar draws eu mannau awyr agored.



Crynodeb

Mae adolygiad o'r dystiolaeth yn awgrymu:

- Er bod camau yn cael eu cymryd gan amgueddfeydd i ddefnyddio tir a mannau awyr agored yn effeithiol, mae hyn yn anghysylltiol ac yn aml wedi'i gyfyngu i enghreifftiau gan sefydliadau sydd ag adnoddau da.
- Mae enghreifftiau cyhoeddedig yn tueddu i gamgymryd tuag at grynhoi canlyniadau ymyriadau rheoli tir. Mae manylion am yr heriau a wynebwyd a'r prosesau a ddilynwyd i gyflawni'r canlyniadau hyn yn fwy prin.



Darganfod mwy



Ymgynghori â'r sector

Ar ôl adolygu'r dystiolaeth bresennol a dod o hyd i enghreifftiau cyfyngedig, gwnaethom geisio ymgysylltu â'r sector yn fanwl i ddeall:

- Y camau sy'n cael eu cymryd i ymgorffori rheoli tir mewn cynllunio strategol
- Y galluogwyr a'r rhwystrau a brofwyd gan y rhai sy'n gyfrifol am ddatblygu a rheoli mannau awyr agored
- Canlyniadau arfaethedig a gweledig newidiadau i fannau awyr agored
- Y gefnogaeth sydd ei angen gan y sector ehangach i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd y mae perchnogaeth tir yn eu cyflwyno ymhellach.

Fe wnaethom ymgysylltu â 52 o amgueddfeydd trwy arolwg ar-lein a 17 arall trwy sgysiau mwy manwl. Yn ogystal, ymwelwyd â 6 safle ledled y DU yn bersonol.



- Ymweliadau Safle
- Cyfweiliadau Manwl
- Ymatebwyr yr Arolwg



Casgliadau'r Ymchwil

Gall diffyg enghreifftiau olygu bod gwybod ble i ddechrau yn arbennig o heriol

Mae manau awyr agored yn aml yn cael eu hystyried yn unigryw, sy'n ei gwneud hi'n anodd i sefydliadau 'weld' eu hunain a thrwy hynny dod o hyd i ffordd ymlaen mewn perthynas â'r heriau y maent yn eu hwynebu.

Mae hyn yn cael ei waethygu gan argaeledd cyfyngedig o enghreifftiau o broses a chynllunio yn hytrach na 'chanlyniadau' yn unig.

Gall hyn wneud i ddatblygu cynllun deimlo fel tasg aruthrol ac mewn rhai achosion mae'n ymddangos ei fod yn arwain at fath o 'barlys'.



Gall hyn arwain at weithredu anghyson o strategaethau, meddwl tymor byr ac adweithiol


Mae llai na hanner ein hymatebwyr arolwg yn ymgorffori eu manau awyr agored yn eu cynlluniau strategol ehangach, gyda lefelau amrywiol o ffurfioldeb – ac mae pumed (19%) yn adweithiol iawn. Mae hyn yn dangos diffyg blaengynllunio tymor hir ynghylch tir a manau awyr agored a sut mae'r rhain yn integreiddio i gynnig ehangach amgueddfeydd ar gyfer y mwyafrif o sefydliadau y buom yn siarad â nhw. Fodd bynnag, mae arwyddion cadarnhaol ar gyfer y dyfodol.

“Mae'r safle wedi bod ar gau ers 2017 ond cytunwyd ar gynlluniau i weithio tuag at ailagor. Bydd strategaeth rheoli tir ffurfiol yn rhan o'r ffordd y caiff y safle ei ymdrin yn y dyfodol. Mae'r amserlen oddeutu tair blynedd.”

**Amgueddfa Ddiwydiannol Cydweli
(Cyngor Sir Gaerfyrddin)**

Nid oes gennym gynllun; Rydym yn ymateb i anghenion wrth iddynt godi, **19%**

Mae gennym gynllun anffurfiol, heb gynllun ar gyfer strategaeth ffurfiol, **35%**



Mae gennym strategaeth ysgrifenedig ffurfiol, **25%**


Mae gennym gynllun anffurfiol ac rydym yn gweithio tuag at strategaeth ffurfiol, **21%**

Amgueddfeydd annibynnol sydd fwyaf tebygol o ymateb yn ad hoc

I amgueddfeydd annibynnol, mae'r diffyg cynllun yn aml oherwydd yr adnoddau neu wybodaeth sydd ar gael.

Mae'r rhai sy'n ymateb i anghenion fel y maent yn codi yn aml yn priodoli'r diffyg cynllun i beidio â bod ar agor i'r cyhoedd ar hyn o bryd neu gynllunio i ddatblygu cynllun strategol cyffredinol yn y dyfodol sydd hefyd yn cynnwys dulliau rheoli tir.


Strategaeth yn ôl math o amgueddfa



Mae'r mwyafrif o strategaethau sy'n bodoli yn weddol tymor byr ac yn cael eu datblygu yn fewnol

Fodd bynnag, mae rhywfaint o dystiolaeth bod rhai sefydliadau yn dechrau meddwl yn fwy hirdymor am eu strategaeth rheoli tir. Mae strategaethau ffurfiol yn fwy cyffredin lle mae angen i dirlunio manau awyr agored gyd-fynd â chyd-destun sefydlog y safle, gan awgrymu bod strategaethau yn fwy cyffredin lle gellir alinio'r strategaeth sefydliadol / safle a'r strategaeth tir yn glir.

Hyd strategaeth yn ôl math



Mae'r rhai sydd ymhellach ymlaen yn eu taith rheoli tir yn canolbwyntio ar integreiddio manau dan do ac awyr agored

Lle mae strategaethau'n cael eu datblygu, mae cyfwelwyr yn disgrifio'r rhain fel rhan o ddull ehangach sy'n anelu at integreiddio eu manau awyr agored i'w cynnig.

Yn nodweddiadol, mae hyn yn canolbwyntio ar gael ymdeimlad o lif drwodd o amgueddfa i fan awyr agored, yn hytrach na bod yn 'amgueddfa gyda gardd'.

"Rwyf am i'r profiad hwnnw y tu mewn a'r tu allan gael ei gysylltu o safbwynt ymwelydd a chynhyrchu incwm..."

Ushaw Historic House, Chapel and Gardens



Ymgorffori tir i'r cynnig cyflawn: Amgueddfa Werin Ulster

Yn Amgueddfa Werin Ulster, mae tir yn rhan sylfaenol o brofiad cyffredinol yr amgueddfa.

Mae hyn wedi'i wneud gan:

- Ddefnyddio'r tir i dyfu llysiau a fyddai wedi cael eu tyfu yn ystod y cyfnod a gynrychiolir gan yr amgueddfa (llysiau treftadaeth).
- Reoli'r tir ac ail-greu tirweddau a fyddai wedi bodoli o amgylch yr adeiladau a chafodd eu hailadeiladu i ail-greu'r awyrgylch hanesyddol.
- Greu fferm dreftadaeth ar y tir i greu profiad mwy ymdrwythol, sy'n defnyddio technegau hanesyddol.





Goresgyn pellter: Maes Prestonpans

Yn Prestonpans, mae pellter daearyddol rhwng yr amgueddfa a'r maes . Mae gwirfoddolwyr yr amgueddfa felly yn ceisio gwneud cysylltiadau rhwng yr amgueddfa a'r maes ac annog llif o ymwelwyr rhwng y ddau.

Maen nhw'n gwneud hynny trwy annog ymwelwyr i gael mynediad i'r hanes yn adeilad yr amgueddfa ac yna dod â'r hanes yn fyw trwy fod yn y lle yn gorfforol; neu ewch i'r maes a 'theimlo' ei awyrgylch ac yna ewch i'r amgueddfa i ddysgu'r hanes.

Hwylusir hyn gan:

- Deithiau sain tywysedig
- Deithiau cerdded
- Fapiau.



Nid oes cytundeb clir ar y canlyniadau a ddymunir ar gyfer tir a mannau awyr agored

Heb strategaeth glir, hirdymor mae llawer o sefydliadau yn cael trafferth cyfaddawdu manteision ac anfanteision gwahanol ddulliau, penderfyniadau a blaenoriaethau sy'n cystadlu yn y tymor byr.

"... Ac mae bob amser yn frwydr pa un ohonyn nhw fydd yn ennill ac yn dod allan ar y brig. 'Dych chi'n gwybod, mae ganddynt i gyd eu blaenoriaeth."

Amgueddfa Mwyngloddio'r Peak District

Gan ddefnyddio techneg blaenoriaethu o'r enw MaxDiff, gofynnwyd i ymatebwyr raddio pwysigrwydd cymharol chwe agwedd wahanol ar reoli tir:

Nid oedd y canlyniadau yn dangos unrhyw 'enillwyr' clir o ran meysydd blaenoriaeth – er enghraifft, roedd cyfrannau cyfartal yn graddio cynhyrchu incwm yn bwysig iawn yn erbyn ddim yn bwysig o gwbl

Twf cynulleidfa



Arallgyfeirio cynulleidfa



Cynhyrchu incwm / cynaliadwyedd



Cynaliadwyedd amgylcheddol



Ymgysylltu cymunedol




Gwerth addysgol



Mae hyn yn cael ei adlewyrchu mewn safbwyntiau cymysg ynghylch i ba raddau y mae mannau awyr agored yn cyflwyno her neu gyfle

Er bod mwy na thraean yn gweld eu mannau awyr agored fel cyfle, mae tua dwy ran o dair yn gweld heriau nodedig i ddatblygu a chynnal eu mannau awyr agored. Mae tua un o bob wyth yn gweld heriau mawr.

Mwy o her na chyfle




Yn fwy tebygol o weld heriau na chyfleoedd:

- Amgueddfeydd Annibynnol – 52%
- Prydles hirdymor (25 mlynedd +) – 58%
- 100-200 erw o dir a reolir – 60%
- Rhwng hanner erw ac erw wedi'i reoli – 63%

Yn fwy tebygol o weld cyfleoedd na her:

- Eiddo Hanesyddol – 83%
- Gardd amgaeëdig/ gardd gegin – 74%
- Tir trefol / concrit a reolir – 73%
- Coetir a reolir – 69%

Mwy o gyfle na her




“Mae'r gerddi yn rhan o'n statws rhestredig Gradd II* [a] bellach yn gyrru nifer yr ymwelwyr. Mae'n gyfle gwych i greu gofod gyda chymunedau, i gyflwyno plant i dai ac ystadau hanesyddol, i adrodd straeon, i wneud arlwygo dros dro.... mae'n rhaid i chi wneud y gwaith brys eich hun a gobeithio y gallwch ei fforddio.”

Tŷ Chawton [Llyfrgell]

Mae diffyg cyfeiriad yn arwain at ganlyniadau ac effeithiau cymysg

Mae'r rhai sydd heb strategaeth glir a hirdymor yn profi amrywiaeth o ganlyniadau eu hymyriadau gyda'r canlyniadau a adnabyddir fwyaf aml yn cael eu cysylltu â manau awyr agored e.e. cynaliadwyedd amgylcheddol.

Canlyniadau a brofwyd



Mae mesur canlyniadau mewn manau awyr agored yn anoddach oherwydd ffactorau amgylcheddol, gydag amserlenni estynedig yn aml yn angenrheidiol

Mae datblygu manau awyr agored yn aml yn broses hirdymor, ac mae'n debygol y bydd angen i strategaethau rheoli tir fod yn ddeinamig ac ymatebol oherwydd newidiadau cymdeithasol - ddiwylliannol.

Gall y dull iteraid hwn effeithio ar ganlyniadau terfynol yn erbyn y rhai a fwriadwyd yn wreiddiol.


“Rwy'n credu ein bod ni i gyd yn mynd trwy broses ddysgu gyda newid hinsawdd ... Beth ydym ni'n ei wneud... Rydyn ni'n mynd i orfod cynllunio plannu cynnal a chadw isel, gwydn iawn. Ond mewn gwirionedd, **yr hyn rydyn ni'n ei brofi yw'r fflwcs hwnnw rydyn ni'n ei gael.**”

Ymddiriedolaeth Amgueddfa Efrog



Yn ogystal, mae llawer yn 'mynd ar eu pennau eu hunain' - gyda datblygiad seilo a dibyniaeth ar wybodaeth fewnol

Er gwaethaf natur gydweithredol gyffredinol y sector, mae tystiolaeth glir bod rheoli tir yn cael ei ymdrin mewn ffyrdd llawer mwy unigol. Lle mae strategaethau rheoli tir yn fwy hirdymor â mwy o ffocws, mae hyn yn tueddu i ddeillio o ddulliau cydweithredol gydag arbenigwyr.



Mae cydweithredu yn amrywio yn ôl maint / math o amgueddfa

Mae eiddo hanesyddol, y rhai sydd â llai o dir neu brydles / strategaeth tymor byr â ffocws fwy mewnol, tra bod amgueddfeydd cenedlaethol a'r rhai sydd â strategaeth hirdymor yn fwy tebygol o gyflogi arbenigwyr. Mae partneriaethau yn llai cyffredin ac yn fwy dwys ymhlith safleoedd treftadaeth a'r rhai sydd â mwy o dir.

'Yn annibynnol gan fy sefydliad:

- Perchnogion o rwng hanner erw ac erw – 50%
- Eiddo hanesyddol – 60%
- Sefydliadau â phrydlesi tymor byr – 67%
- Strategaeth yn pontio llai na 5 mlynedd – 67%

'Arbenigwyr a gyflogwyd gan fy sefydliad' yn uwch ymysg:

- Amgueddfeydd Cenedlaethol – 100%
- Tir Fferm a reolir – 88%
- Strategaeth yn pontio mwy nag 20 mlynedd – 67%
- Strategaeth 10-15 mlynedd – 50%

'Mewn partneriaeth ag amgueddfeydd eraill' yn uwch ymysg:

- Safleoedd treftadaeth – 13%
- Perchnogion o rwng 1-10 erw – 13%
- Sefydliadau â phrydlesi tymor hir – 8%
- Y rhai â chynllun anffurfiol, heb gynllun am strategaeth ffurfiol – 6%

Yn gyffredinol fwy ynysig / yn edrych yn fewnol

Yn gyffredinol fwy cydweithredol / edrych yn allanol

Gall dibyniaeth ar adnoddau mewnol gyfyngu ar welliannau strategol

Mae'r her hon yn fwy aciwt mewn amgueddfeydd nad oes ganddynt arbenigwyr pwnc mewnol, lle gall absenoldeb arbenigedd pwrpasol gyfyngu ar uchelgais a'r gallu i ddatblygu.

Roedd sawl cyfwelydd yn adlewyrchu bod yr amharodrwydd hwn i symud y tu hwnt i feysydd sefydledig yn gweithredu fel rhwystr i gyfnewid gwybodaeth ac arloesi ehangach. Yn benodol, mae'n atal cydweithredu traws-sector gwerthfawr.

Mae'r canfyddiadau'n awgrymu bod angen chwalu'r seilos hyn, nid yn unig i annog dysgu a rennir ond hefyd i sicrhau y gall amgueddfeydd esblygu mewn ymateb i gyd-destunau a disgwyliadau cymdeithasol sy'n newid.

"Mae'n ased enfawr, ond nid oes gennym ddigon o bobl nac arian i wneud yr hyn yr hoffem ei wneud ag ef."

Amgueddfa Fwyd

"... Fodd bynnag, nid oes gennym arbenigwyr tir ar y tîm staff ac ni allwn ehangu heb fuddsoddiad sylweddol / grantiau / cynlluniau adeiladu ac ehangu tir hirdymor"

Burton yn Amgueddfa ac Oriel Gelf Bideford

"Nid oes gennym adnoddau ar gyfer datblygu a rheoli'r tir."

Amgueddfa Coldharbour Mill

Gwerth cydweithredu

Fel y gwelwyd yn gynharach, dim ond 2% o'r amgueddfeydd yn ein harolwg sydd wedi datblygu cynllun fel rhan o bartneriaeth gydag amgueddfeydd a sefydliadau treftadaeth eraill.

Mae hyn yn dangos diffyg rhannu gwybodaeth o fewn y sector, gydag amgueddfeydd wedi'u cyfyngu i'w gwybodaeth fewnol ac yn gweithio mewn seilos, nad yw'n cael ei weld mewn agweddau eraill ym maes treftadaeth - grŵp cydweithredol fel arfer.

Gall y rhannu hwn o brofiad helpu gyda datblygu strategaeth gan y gall amgueddfeydd ddysgu gan eraill sut olwg sydd ar brosesau, beth i'w ddisgwyl a sion sicr gan amgueddfeydd sydd â mwy o brofiad. Byddai hyn yn arbennig o werthfawr lle nad oes gan amgueddfeydd yr adnodd i logi staff arbenigol.

Pan fydd strategaeth wedi'i datblygu mewn partneriaeth ag ymgynghorwyr, goruchwyliaeth arbenigol, yr awdurdod lleol neu'r gymuned, cynyddir cyfran y sefydliadau sy'n gwneud cais am gyllid allanol - sy'n awgrymu y gall cydweithio hefyd helpu i fynd i'r afael â phwysau adnoddau ariannol.

“Rwy'n credu y byddai'n dda iawn pe baen nhw [amgueddfeydd] yn gallu edrych ar Erddi Botaneg fel adnodd posibl, oherwydd rydyn ni'n gwyllo beth maen nhw'n ei wneud ac yn meddwl yn dda, chi'n gwybod, mae hyn yn ddiddorol, ond rydyn ni wedi bod yn gwneud hyn ers amser maith. Rwy'n credu nad yw'r math hwnnw o bartneriaeth a chydweithio o reidrwydd yn dod yn hawdd i amgueddfeydd.”


Gardd Chelsea Physic

Yn gryno: mae diffyg tystiolaeth ac enghreifftiau o lwyddiannau, datblygu strategaeth seilo a chyfyngiadau adnoddau yn rhwystrau allweddol i ddatblygiad strategol hirdymor

Ar draws y sefydliadau a oedd yn ymgysylltu â ni, fe wnaethom nodi...

- Diffyg enghreifftiau cynhwysfawr sy'n cyfyngu ar rannu gwybodaeth ac ysbrydoliaeth
- Datblygu strategaethau seilo o ganlyniad i 'unigrywiaeth' safleoedd unigol
- Cyfyngiadau adnoddau, ariannol a dynol

Mae'r ffactorau cyfyngol hyn yn cyfrannu at agwedd tymor byr llawer o strategaethau rheoli tir yn y sector, gan atal potensial llawn sefydliadau sy'n berchen ar dir rhag cael eu cyflawni.



Arfer da



Amgueddfa Fyw Weald a Downland

Optimeiddio'r cyfle

Er bod heriau yn ymwneud â datblygu a defnyddio mannau awyr agored, mae arwyddion bod yna sefydliadau yn y sector sy'n arwain y ffordd ac yn gwneud cynnydd wrth ddatblygu eu mannau awyr agored.

Ymhlith y sefydliadau sy'n gwneud camau mawr ymlaen wrth ddatblygu eu mannau awyr agored, mae themâu cyffredin o bob rhan o'n hastudiaeth.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- Parodrwydd i 'fentro'
- Cydweithio â'r rhai y tu allan i'r sefydliad – boed yn bartneriaid neu'n gymunedau
- Arweinyddiaeth a gweledigaeth hirdymor, gyda derbyn iteriad tactegol.





Amgueddfa Werin Ulster: creu ffordd ymlaen

Mae Amgueddfa Werin Ulster yn enghraifft dda o weithio tuag at gynaliadwyedd fel prif nod.

Mae hyn yn cael ei hwyluso gan:

- **Aliniad sefydliadol clir**, gydag arweinwyr yn defnyddio ‘cerdded a siarad’ staff i annog ymgysylltiad a chefnogaeth
- **Gan dynnu ar wybodaeth allanol** – mae CEDaR (Canolfan Data a Chofnodi Amgylcheddol) wedi'i lleoli yn yr amgueddfa – partneriaeth rhwng Amgueddfeydd Cenedlaethol Gogledd Iwerddon, Asiantaeth yr Amgylchedd Gogledd Iwerddon a'r gymuned recordio. Maent yn arbenigwyr mewn casglu, cydgrynhoi, rheoli a rhannu cofnodion o rywogaethau ar gyfer Gogledd Iwerddon, gyda'r bartneriaeth yn caniatáu i Amgueddfa Werin Ulster fod ar flaen y gad o ran ymyriadau amgylcheddol gynaliadwy ac arloesol.
- **Partneriaeth effeithiol:** Mae Gwirfoddolwyr Cadwraeth (TCV) yn defnyddio tir amgueddfa werin Ulster i dyfu coed brodorol sydd wedyn yn cael eu gwerthu ymlaen. Mae hwn yn ateb effeithiol i angen TCV am safle meithrin a'r Amgueddfa am arbenigwr garddwriaethol a gweithlu.

Pan fydd sefydliadau yn 'mynd y tu hwnt' i'w rhwydwaith traddodiadol, maent yn datgloi dysgu a chyfleoedd newydd



Trwy ymgynghori â'r gymuned, arbenigwyr pwnc, neu sefydliadau treftadaeth eraill, gall amgueddfeydd gael mynediad at wybodaeth, safbwyntiau ac arbenigedd nad ydynt efallai yn bodoli o fewn eu timau eu hunain. Gall hyn helpu i herio rhagdybiaethau mewnol, sbarduno syniadau newydd, a sicrhau bod mentrau awyr agored yn berthnasol ac yn gynhwysol.



Er enghraifft, gallai arbenigwyr amgylcheddol gynghori ar fioamrywiaeth a phlannu cynaliadwy, tra gallai grwpiau cymunedol lleol gynnig mewnwelediad i sut mae mannau awyr agored yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd - a beth allai annog cyfranogiad ehangach.



Efallai y bydd gan amgueddfeydd eraill wersi gwerthfawr i'w rhannu o'u harbrofi eu hunain, boed hynny'n beth oedd yn gweithio'n dda, beth nad oedd yn gweithio mor dda, neu ba ganlyniadau annisgwyl a ddaeth i'r amlwg. Mae hyn hefyd yn helpu i adeiladu partneriaethau cryfach ac ymdeimlad o berchnogaeth a rennir dros ddulliau gweithredu newydd.

Tŷ Hanesyddol, Capel a Gerddi Ushaw: ehangu eich cylch

Yn Ushaw, maent wedi ymgysylltu â a cheisio gwybodaeth gan:

- Asiantau tir
- Y gymuned leol
- Ffermwyr tenant
- Cyngor Sir Durham
- Y Comisiwn Coedwigaeth
- Ymwelwyr
- Prifysgol Durham.

"Felly, roedd gennym asiant tir lleol a gynigiodd y cyfle hwnnw i ddod allan ac ymgynghori â ni ac edrych ar y cyfleoedd ar gyfer yr ystâd o ran incwm posibl trwy ffrydiau'r llywodraeth a oedd yn hysbys bryd hynny."

Mae'r ymgynghoriadau hyn wedi arwain at sefydlu perthnasoedd gwaith a fydd yn cyfrannu at gynlluniau ansawdd pridd yn y dyfodol, cyngor am gynlluniau credyd carbon, cymorth gyda cheisiadau am gyllid ac archwilio cyfleoedd pellach.



Ystyriwch fannau awyr agored fel llwyfannau ar gyfer arbrofi, cynaliadwyedd a lles cymunedol

Gall mannau awyr agored gynnig llwyfan gwerthfawr ar gyfer arbrofi - trwy dreialu mathau newydd o ddigwyddiadau, cynnal arddangosfeydd awyr agored dros dro, neu brofi gweithgareddau cyfranogol sy'n dod â chasgliadau a straeon yn fyw mewn ffyrdd annisgwyl.

Gall amgueddfeydd hefyd gymryd yr awenau wrth ymgorffori cyfrifoldeb amgylcheddol yn y gwaith o ddylunio a defnyddio'r ardaloedd hyn, er enghraifft trwy gynlluniau plannu sy'n cefnogi bioamrywiaeth, neu seilwaith sy'n adlewyrchu meddwl sy'n ymwybodol o'r hinsawdd. Mae mannau awyr agored hefyd yn briodol yn naturiol i raglennu iechyd a lles – rhedeg parc, teithiau cerdded, sesiynau ioga, neu weithgareddau synhwyraidd – a all helpu i ehangu rôl yr amgueddfa mewn bywyd cymunedol.

Trwy weld mannau awyr agored fel asedau gweithredol, hyblyg, gall amgueddfeydd ymateb yn well i anghenion esblygol eu cynulleidfaoedd a'r cymunedau maen nhw'n eu gwasanaethu.

"... Rydym yn ailfeddwl y tir fel rhan annatod o brofiad ymwelwyr, fel cyfle i hyrwyddo bioamrywiaeth a chreu cynefinoedd, gofod gwych ar gyfer iechyd a lles, ar gyfer dehongli treftadaeth, sgiliau a dysgu."

**Amgueddfa Ddiwydiannol
Cydweli (Cyngor Sir
Gaerfyrddin)**

Gall ffurfio partneriaethau diogel gyda chymunedau lleol sicrhau hirhoedledd ymhellach

Trwy weithio ar y cyd â grwpiau lleol, ysgolion, sefydliadau diwylliannol, a thrigolion, gall amgueddfeydd sicrhau bod mannau awyr agored yn teimlo'n groesawgar, yn berthnasol a'u bod yn adlewyrchu'r ardal.

Gall y partneriaethau hyn arwain at ddigwyddiadau ar y cyd, defnydd a rennir o leoliadau, ac ymdeimlad o gyd-berchnogaeth sy'n dyfnhau ymgysylltu ac yn cryfhau cysylltiadau hirdymor.

Elfen allweddol o adeiladu'r perthnasoedd hyn yw atgoffa'r gymuned o berthnasedd a phwysigrwydd parhaus hanes lleol - gan ddangos sut mae'r gorffennol yn cysylltu â materion, hunaniaethau a phrofiadau presennol.

Mae cymuned sy'n gweld ei threftadaeth yn cael ei hadlewyrchu a'i gwerthfawrogi yn fwy tebygol o'i chefnogi a'i chynnal, trwy gyfranogiad gweithredol a thrwy fuddsoddiad parhaus ariannol ac mewn enw da. Gall cynnwys y gymuned a rhanddeiliaid lleol yn natblygiad strategaethau awyr agored trwy gyd-gynhyrchu a dylunio cyfranogol helpu gydag ymrwymiad a goresgyn rhai heriau a gwrthwynebiad i newidiadau, trwy roi 'sedd wrth y bwrdd' i bobl.

"Mae tref newydd yn cael ei hadeiladu draw ar ran ddwyreiniol y maes ... o fewn datblygiad y gymuned newydd honno, mae yna ddealltwriaeth o'r rôl a chwaraeodd y frwydr, yn yr ystyr o le ac yr hyn y mae'r lle hwnnw'n ei gynrychioli."

Maes Prestonpans

Maes Prestonpans: perthnasedd yn y gymuned

Mae Prestonpans yn wynebu'r her unigryw o beidio â bod yn berchen ar y maes sy'n cynnwys elfen graidd o'u cynnig. Felly, er mwyn sicrhau cynnal a chadw'r safle, maent yn cyfathrebu'n aml â'r awdurdod lleol a chymunedau lleol presennol a rhai sy'n dod i'r amlwg i sicrhau perthnasedd a chynnal a chadw.

Trwy ymgysylltu'n llwyddiannus â rhanddeiliaid lleol, yn yr achos hwn datblygwyr eiddo, mae Prestonpans wedi gallu sicrhau perthnasedd parhaus y safle trwy lobio i gael enwau hanesyddol perthnasol eu defnyddio yn y datblygiad tai diweddar wedi'u hadeiladu yn agos at y safle. Trwy wneud hynny, mae'r elusen yn cadarnhau gwerth y safle a'i hanes o fewn y gymuned leol; yn sicrhau diddordeb yn y dyfodol yn y rôl a chwaraeodd y frwydr wrth lunio'r ardal, ynghyd â pharhau i chwarae rôl wrth lunio hunaniaeth yr ardal.

"Mae'r ddealltwriaeth o'r dirwedd wedi'i adeiladu yn y dyluniad [y datblygiad newydd]. Fel nad yw'n ymwneud â stopio datblygiad neu atal unrhyw un byth rhag gallu byw neu weithio neu fwynhau'r maes . Mae'n hollol i'r gwrthwyneb. Mae'n ymwneud â dweud bod [y maes] yn rhan o'r gymuned heddiw, ac mae wedi bod ers 280 mlynedd."



Parodrwydd i weithredu fel 'arweinwyr' arallgyfeirio

Mae arweinyddiaeth gref yn hanfodol i wireddu potensial llawn mannau awyr agored mewn amgueddfeydd. Mae gwthio y tu hwnt i fodolau traddodiadol ac arbrosi gyda dulliau newydd - boed yn amgylcheddol, cyfranogol, lles neu ffocws arall - yn gofyn am weledigaeth glir a rhywun sy'n barod i hyrwyddo'r weledigaeth honno. Mae'n gofyn am arweinwyr sy'n gallu llywio ansicrwydd, eirioli dros newid, a dod ag eraill ar y daith.

Er nad oes angen i hyn fod yn Gyfarwyddwr neu Gadeirydd, dyweder, mae angen cefnogaeth rhanddeiliaid mewnol ar y math hwn o arweinyddiaeth.

"... gyda fy nghefnidir mewn llywodraeth leol a strategaeth, cymerais yr awenau ar baratoi strategaeth ar gyfer ein 10 mlynedd nesaf, a ddylwn i ddweud ei fod yn 10 mlynedd gweddol dreigl... Ac rydyn ni'n defnyddio hynny i fynd â ni ymlaen ... mae ein strwythur yn uchelgais ac amcanion 10 mlynedd ac yna cynllun treigl tair blynedd wedi'i danseilio gan gynllun gweithredu blwyddyn sy'n cyflawni ein perthynas cytundeb rheoli â Chyngor Sir y Fflint i gael cynllun busnes blwyddyn."

Parc Treftadaeth Dyffryn Maes Glas

Alinio strategaeth awyr agored i strategaeth sefydliadol ehangach

Heb ymrwymiad traws-sefydliadol, gall hyd yn oed y mentrau mwyaf cymhellol golli momentwm. Rhaid i arweinwyr adeiladu achos cryf dros newid, gan gyfathrebu sut y gall mannau awyr agored gyfrannu at nodau strategol fel datblygu cynulleidfaoedd, cyfrifoldeb amgylcheddol, neu berthnasedd cymunedol.

Trwy alinio'r uchelgeisiau hyn â chenhadaeth ehangach yr amgueddfa – er enghraifft trwy alinio â set ehangach o nodau neu strategaeth sy'n edrych ar y dyfodol – gall sefydliadau gynyddu'r tebygolrwydd y bydd pawb yn ymrwymo.

".....mai ein dymuniad yn ein strategaeth 10 mlynedd yw dod yn un o'r 10 cyrchfan orau yng Ngogledd Cymru. Rwy'n credu mai'r cnau a'r bolltau sy'n cyflawni hynny yw'r strategaeth rydyn ni wedi'i datblygu yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, sef comisiynu ymgynghorwyr i ddod i mewn a rhoi uwchgynllun i ni, fframwaith cadarn iawn sy'n mapio sut rydyn ni am ddatblygu'r dyffryn dros y 10 mlynedd."

Parc Treftadaeth Dyffryn Maes Glas

Parc Treftadaeth Maes Glas: cymryd yr awenau

Mae Parc Treftadaeth Maes Glas yn Sir y Fflint, Cymru, yn eiddo i Gyngor Sir y Fflint ac yn cael ei reoli mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Dyffryn Maes Glas. Ar ôl datblygu cytundeb rheoli newydd rhwng y Cyngor a'r Ymddiriedolaeth, penderfynwyd datblygu strategaeth 10 mlynedd, a baratowyd yn ystod cyfnod clo Covid.

Fel rhan o'r strategaeth, mae ymddiriedolwyr yn defnyddio eu meysydd arbenigedd i ganghennu i ffrydiau incwm newydd a newid y strwythur elusennol. Trwy gael ymddiriedolwyr o gefndiroedd mwy amrywiol sy'n barod i herio sut mae pethau wedi'u gwneud yn y gorffennol, mae Dyffryn Maes Glas wedi gallu ehangu ei weithrediadau i fynd ar drywydd cynaliadwyedd ariannol.

"... ar hyn o bryd mae gennym ymddiriedolwr newydd sydd â'i sgil yn PR a chyfathrebu, ond mae ganddo gysylltiad da iawn â, gadewch i ni ei alw'n seilwaith cymdeithasol Gogledd Cymru... Mae gennym un arall o'n hymddiriedolwyr sy'n bennaeth ysgol ... Mae hi'n meddwl, sut allwn ni ymgysylltu â phlant oedran ysgol?... Dyna eu set sgiliau, ond eu gweledigaeth a fyddai'n ein helpu ni fel bwrdd ymddiriedolwyr i wireddu agweddau datblygu amgylcheddol y Dyffryn."



Argymhellion sector ehangach



Neuadd a Gerdd Kiplin Hall and Gardens


Mae angen i gyllidwyr fod yn ymwybodol o'r natur hirdymor a'r heriau sy'n gynhenid mewn rheoli tir

Mae gallu i fuddsoddi yn cyflwyno mwy o her na chyfle i dair rhan o bump o'n hymatebwyr arolwg ac yn her fawr i ddau o bob pump.

Mae cyllidwyr felly yn rhan annatod o gefnogi amgueddfeydd i wneud y mwyaf o botensial eu tir a'u mannau awyr agored.

Nid ydym yn gallu buddsoddi mewn datblygiad pellach na'n mannau awyr agored ~60%

Rydym yn gallu buddsoddi yn natblygiad ein mannau awyr agored ~ 40%



Her anferth

Mwy o her na chyfle

Mwy o gyfle na her

Cyfle anferth

Agored i gymwysiadau iteraidd: O ystyried natur ddatblygol strategaethau rheoli tir, mae angen i gyllidwyr fod yn ymwybodol y gall ceisiadau am gyllid fod yn llai manwl gywir neu ragnodol, mae angen lle i ailadrodd

Opsiynau cyllido mwy amrywiol: Bydd angen arallgyfeirio ffrydiau cyllido i symud y tu hwnt i'r ffocws ar adeiladau a seilwaith i agor cyfleoedd ariannu ar gyfer datblygiadau tir-gyntaf

Tystiolaeth a gwerthuso: I rai amgueddfeydd, mae dangos pethau fel mwy o ymwelwyr mewn mannau awyr agored yn anodd oherwydd eu natur a'u maint; bod yn agored i asesiadau ansoddol o effaith.

Mae angen i sefydliadau cymorth sector fod yn hwyluswyr a hyrwyddwyr i'r sector

Annog dysgu traws-sector: Trwy sefydlu adnodd canolog o enghreifftiau a hwyluso rhannu gwybodaeth.

Cefnogi sefydliadau i ymgysylltu â phartneriaid newydd:

Gan gynnwys helpu sefydliadau i ddeall y gwahanol ofynion wrth weithio gyda phartneriaid newydd neu ar gynlluniau newydd.

Annog ac eirioli dros gyllid pellach: Er mwyn cydnabod bod cyllid yn rhwystr i ddatblygu strategaethau hirdymor, mae angen i SSOs fod ar flaen y gad wrth ymgyrchu dros gael rhagor o gyllid ar gyfer ymyriadau tir.

“... ond mae'n **iaith hollol wahanol** a math hollol wahanol o fyd newydd nad wyf yn bersonol wedi cael profiad ohono cyn hynny. Ond eto, mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi bod yn wirioneddol gadarnhaol ac rydw i wedi bod yn onest gyda nhw a dweud fy mod i'n newydd i hyn. Dealltwriaeth well o grantiau'r Llywodraeth – er ein bod wedi cymryd camau gweithredol i sicrhau ein bod yn deall hyn, ond mae'r rhagolygon yn y tymor byr ac mae diffyg eglurder ynghylch rhai meysydd o wneud grantiau yn gliriach. Canllawiau cytûn, a chyson, ynghylch unedau carbon ac unedau bioamrywiaeth, er enghraifft.”

Tŷ Hanesyddol, Capel a Gerddi Ushaw

Datblygu pecyn cymorth

**Defnyddio'r llwyddiannau a amlinellwyd fel
taith i strategaeth rheoli tir lwyddiannus**



Rhoi hyn ar waith

Argymhelliad	Pam mae'n bwysig?	Rhoi ar waith – sefydliad bach	Rhoi ar waith – sefydliad mawr
Penderfynwch eich nodau yn glir – Diffiniwch 'Seren y Gogledd' clir sy'n parhau i fod yn gyson hyd yn oed os gall y modd o gyrraedd y nod hwn newid.	Mae cael nod ac uchelgais hirdymor (tua 10 mlynedd) wedi'i ddiffinio'n glir yn helpu i drefnu a phenderfynu'r nodau mwy tymor byr a chanolog. Mae hyn yn helpu i roi ffocws ac yn caniatáu dyrannu adnoddau yn fwy bwriadol.	Dod â rhanddeiliaid allweddol at ei gilydd – gall hyn fod yn ymddiriedolwyr, aelodau bwrdd, gwirfoddolwyr a'r gymuned leol – i gael ymdeimlad o ddyheadau ac oedi, i gydbwysu'r rhain â dichonoldeb i lunio strategaeth / cynllun.	Dod â rhanddeiliaid craidd at ei gilydd – gall hyn fod yn aelodau o'r gymuned, tirfeddianwyr lleol, ffermwyr tenant, gweithwyr, gwirfoddolwyr, aelodau bwrdd, ymddiriedolwyr a grwpiau diddordeb eraill. Gan ddefnyddio adborth a phrofiadau sefydliadau tebyg, ystyriwch adnoddau i lunio cynllun 10 mlynedd, 5 mlynedd ac 1 flwyddyn.
Treuliwch amser i ddeall beth sydd gennych	Gall manau awyr agored ddarparu potensial diderfyn, mae gwybod pa fannau a nodweddion neu agweddau y gellir eu defnyddio a pha adnoddau sydd ar gael yn bwysig i benderfynu cyfeiriad strategol neu ffocws. Bydd adnabod nodweddion manau awyr agored hefyd yn helpu wrth chwilio am ysbrydoliaeth neu gyngor gan safleoedd eraill.	Ystyried y manau awyr agored sydd gennych, unrhyw gyfyngiadau ar ddefnydd, defnyddiau presennol ond hefyd sgiliau a diddordebau staff a gwirfoddolwyr. Gallai hyn fod yn ymgynghoriad â staff a / neu wirfoddolwyr a thrafod syniadau a phethau y gallent fod wedi'u gweld mewn manau eraill.	Comisiynu arolygon tir, archwilio'r cofnod hanesyddol, ac ymgynghori â ffermwyr tenant / cymdogion i ddeall defnydd tir presennol a sut y gallai tir fod wedi cael ei ddefnyddio yn y gorffennol, ynghyd ag unrhyw nodweddion nad ydynt efallai yn weladwy ar unwaith.
Ymgynghori â phobl y tu hwnt i'ch sefydliad eich hun	Mae hyn yn agor llwybrau newydd o ddatblygu a allai fod heb eu hystyried neu'n anhysbys. Efallai y bydd gan eraill fwy o brofiad o ryngweithio â gwahanol sefydliadau neu gyrff rheoleiddio ac efallai y byddant yn gallu cynorthwyo gyda cheisiadau am gyllid, er enghraifft. Ar ben hynny, gallai hyn gysylltu amgueddfeydd ag arbenigwyr a allai fod yn agored i gynnig cyngor ac arweiniad. Mae hyn hefyd yn gyfle i uwchsgilio gwirfoddolwyr a staff mewnol.	Gallai hyn gynnwys ymgynghori â sefydliadau tebyg eraill, grwpiau gwirfoddoli, y gymuned leol neu sefydliadau cymorth am ysbrydoliaeth neu gyngor.	Partneriaeth â sefydliadau arbenigol (e.e. CEDaR yn Amgueddfa Werin Ulster), ymgynghori ag arbenigwyr allanol (e.e. rheolwyr tir), neu unigolion sydd â phrofiad mewn sectorau yr hoffai'r amgueddfa arallgyfeirio ynddynt. Gall uwchsgilio a rhannu gwybodaeth gydag arbenigwyr ddigwydd trwy weithgareddau cerdded a sgwrsio a chysiau hyfforddi sy'n cael eu cynnal gan arbenigwyr ac annog hirhoedled wrth i alluoedd mewnol gael eu datblygu.

Argymhelliad	Pam mae'n bwysig?	Rhoi ar waith – sefydliad bach	Rhoi ar waith – sefydliad mawr
Byddwch yn agored i arbrofi a phrofi	Mae ymyriadau tir yn cymryd amser i'w gweithredu a gweld canlyniadau, ac ochr yn ochr â hyn, mae'n debygol bod safleoedd yn wahanol ac nid yw popeth yn mynd i weithio, mae bod yn barod ar gyfer hyn a chael nifer o ddulliau gwethredu i'w profi yn caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd. Mae'r hyblygrwydd hwn yn golygu bod opsiynau eraill os na dderbynnir cyllid neu os bydd datblygiad wedi'i gynllunio yn aflwyddiannus.	Dechreuwch gyda phrosiectau bach peilot i brofi gwahanol syniadau. Gallai hyn gynnwys gosodiadau dros dro, digwyddiadau dros dro, neu brosiectau garddio ar raddfa fach. Gallai defnyddio gwybodaeth gan y gymuned leol neu grwpiau cymunedol lleol helpu i gadw costau mewnbwn yn isel. Gallai hyn hefyd gynnwys partneriaethau â sefydliadau mwy i brofi ymyrraeth ar raddfa lai.	Gall hyn gynnwys ymyriadau parhaus lluosog sy'n darparu cyfeiriadau a ffocws gwahanol e.e. ailwylltio dŵl, tra hefyd adfer pwll, mae hyn yn sicrhau bod opsiynau os bydd neu os na fydd cyllid yn dod drwodd a bod hyblygrwydd i brofi a throi pan fo angen. Mae cael mwy o adnoddau a pharodrwydd i brofi hefyd yn cynnig y cyfle ar gyfer mwy o bartneriaethau amrywiol.
Buddsoddwch mewn arweinyddiaeth gref i lywio gweledigaeth	Mae arweinyddiaeth sy'n cyd-fynd â strategaeth tir yn allweddol i amlinellu strategaeth hirdymor, gan sicrhau bod yr ymyriadau yn cael adnoddau priodol, gydag ymrwymiad gan y sefydliad ehangach a bod strategaethau tir yn cael digon o sylw. Mae arweinyddiaeth hefyd yn allweddol i rwydweithio, a all hwyluso cysylltiadau â ffynonellau gwybodaeth pellach	Dylech sicrhau gweledigaeth a rennir ar draws gwirfoddolwyr ac arweinyddiaeth / ymddiriedolwyr. Cyfathrebwch o fewn y sefydliad y camau a fydd yn cael eu cymryd a sicrhewch y caiff diweddariadau eu rhannu.	Cyflogi strategol ac ymgysylltu ymddiriedolwyr â chefnidiroedd a safbwyntiau amrywiol, er mwyn galluogi llif o syniadau newydd a gwahanol; annog cyfranogiad unigolion o gefndiroedd cyflogaeth mwy amrywiol a allai ddod â gwahanol safbwyntiau a chysylltiadau.

Argymhelliad	Pam mae'n bwysig?	Rhoi ar waith – sefydliad bach	Rhoi ar waith – sefydliad mawr
Sicrhewch gyfathrebu clir	Mae cyfathrebu mewnol ac allanol clir yn annog ymatebion cadarnhaol i reoli manau awyr agored – trwy roi sicrwydd i ymwelwyr bod strategaeth a rheswm dros newidiadau ac esbonio'r rhesymeg i staff mewnol.	Dylech gynnwys hysbysiad neu boster am yr hyn sy'n digwydd / mynd i ddigwydd, cyfathrebu ag unrhyw randdeiliaid mewnol ymlaen llaw a rhoi diweddariadau aml.	Rhannwch ddiweddariadau rheolaidd ar yr hyn sy'n cael ei wneud, mewn cyfarfodydd mewnol, postiadau neu gylchlythyrau. Cael arwyddion neu fyrddau gwybodaeth sy'n disgrifio'r hyn sy'n cael ei wneud – e.e. 'No Mow May' a rhannu gwybodaeth ar gyfryngau cymdeithasol am yr ymyriadau sy'n digwydd.
Dylech gynnwys y gymuned leol cymaint â phosib	Mae hyn yn helpu i annog hirhoedledd safle a'r ymyriadau, yn enwedig os yw'r gymuned yn cymryd perchnogaeth o'r cynllun rheoli tir. Mae ymgorffori gwerth amgueddfa neu sefydliad treftadaeth yn y gymuned leol yn atgyfnerthu pwysigrwydd y gorffennol yn y dyfodol. Gall cynnwys y gymuned hefyd helpu gyda recriwtio gwirfoddolwyr, rhannu gwybodaeth a hysbysebu ar lafar o ddatblygu manau awyr agored.	Ymgysylltwch â'r gymuned trwy godi ymwybyddiaeth o'r hyn sy'n cael ei wneud, gallai hyn fod trwy gyfryngau cymdeithasol neu hysbysiadau. Os yw'n bosibl, cynigwch amrywiaeth o swyddi gwirfoddol y gall y gymuned fod yn rhan ohonynt gan nodi'n glir y cyfrifoldeb am weithredoedd a rheolaeth.	Ymgynghorwch â'r gymuned cyn datblygu ymyriadau, mesurwch diddordeb mewn gwahanol gyfleoedd ar gyfer gwirfoddoli, ymgynghorwch â grwpiau cymunedol lleol i weld a oes diddordeb mewn cydweithredu â'r cynlluniau rheoli tir. Cydweithiwch â neu estynwch allan at fusnesau lleol am bartneriaeth neu nawdd. Cymerwch amser i ddeall rhanddeiliaid cymunedol gan gynnwys cynghorau neu arweinwyr lleol, y gallai fod angen eu hymrwymiad ar gyfer ymyriadau mwy.


Argymhelliad	Pam mae'n bwysig?	Rhoi ar waith – sefydliad bach	Rhoi ar waith – sefydliad mawr
<p>Alinio strategaeth gyffredinol a strategaeth rheoli tir – a dod â rhanddeiliaid mewnol ar hyd y daith</p>	<p>Mae cydblethu strategaeth gyffredinol a strategaeth rheoli tir, sy'n alinio y tu ôl i nod unedig, yn annog ymrwymiad gan y cwmni a chanolbwyntio adnoddau yn ogystal â rhwyddineb cyfathrebu ynghylch y rheswm dros ddewisiadau a / neu fuddsoddiadau penodol.</p>	<p>Nodwch yn glir sut mae cynlluniau rheoli tir yn cysylltu â'r strategaeth gyffredinol a sut y bydd yr adnoddau a ddefnyddir yn cyfrannu at nodau cyffredinol, fel nad yw'r strategaeth rheoli tir yn cael ei ystyried fel ailddyrianiad o amser ac adnoddau cyfyngedig.</p>	<p>Ymgorffori strategaeth rheoli tir o fewn y strategaeth sefydliadol gyffredinol, gan greu amgueddfa gyda gardd yn hytrach na gardd ac amgueddfa. Tynnwch gysylltiadau rhwng manau dan do ac awyr agored i barhau â naratif y tu mewn a'r tu allan, i greu profiad trochi cyflawn.</p>
<p>Meddyliwch yn y tymor hir, ond gan hefyd ystyried cerrig milltir tymor byr</p>	<p>Mae newidiadau tir yn fuddsoddiadau hirdymor a bydd canlyniadau yn cymryd amser i ddod yn amlwg, felly, mae angen i strategaethau fod yn hirdymor i ganiatau am hyn. Fodd bynnag, ar gyfer ceisiadau am gyllid, monitro cynnydd, potensial ar gyfer hyblygrwydd ac ymrwymiad sefydliadol, mae angen cael cerrig milltir tymor byrrach hefyd.</p>	<p>Gall ymyriadau tymor byr fod yn fuddugoliaethau cyflym, ac ar raddfa fach. Gall nod tymor hir fod yn fyrrach na sefydliad mwy, yn dibynnu ar raddfa'r safle a'r math o dir a reolir.</p>	<p>Gweithredwch yr ymyriadau mewn camau, gan ganiatau monitro ac addasu parhaus yn seiliedig ar adborth a chanlyniadau. Mae hyn yn sicrhau bod y prosiectau'n parhau i gyd-fynd â nodau'r sefydliad a gellir eu haddasu yn ôl yr angen. Ynghyd â darparu cerrig milltir cynyddol, gan ddangos cynnydd yn y tymor byr.</p>

Proffil ymatebwyr




Proffil ymatebwyr yr arolwg (1)

Math o Amgueddfa (n=52)




Tir a Reolir (n=52)




Proffil ymatebwyr yr arolwg (2)

Math o dir (n=52)



Proffil ymatebwyr yr arolwg (3)



Astudiaethau achos



Charterhouse, London

Astudiaethau achos

Parc Treftadaeth Dyffryn Maes Glas

Mae Parc Treftadaeth Maes Glas yn enghraifft o nifer o'n hargymhellion craidd: maent yn recriwtio unigolion â sgiliau amrywiol i **ehangu eu sylfaen wybodaeth, ymgysylltu â'r gymuned** i ddatblygu'r safle a sicrhau hirhoedledd, ynghyd â datblygu **cynllun strategol hirdymor** gyda cherrig milltir cynyddol.

Er enghraifft:

- Fel rhan o'r datblygiad, mae Dyffryn Maes Glas ar hyn o bryd yn gweithio gyda grŵp o ymgynghorwyr i ddatblygu eu Cynllun Treftadaeth Glas/Gwyrdd a ariennir gan Gronfa Ffyniant a Rennir y DU (UKSPF).
- Mae ymddiriedolwyr wedi creu strategaeth 10 mlynedd newydd sy'n ceisio cydbwysu'r elfennau sy'n aml yn gwrthdaro o brofiad ymwelwyr, stiwardiaeth treftadaeth ac ymgysylltu â'r gymuned – wedi'i rhannu ymhellach i gwmpasu cyfnodau 3 blynedd a chydannau 1 flwyddyn i fodloni gofynion Cyngor Sir y Fflint.
- Mae Dyffryn Maes Glas yn defnyddio cefndiroedd ac arbenigedd gwahanol eu hymddiriedolwyr i archwilio cyfleoedd arallgyfeirio.

Amgueddfa Werin Ulster

Mae Amgueddfa Werin Ulster yn **cymryd yr awenau** ac yn **treialu dulliau newydd**, yn enwedig gyda golwg ar gynaliadwyedd. Mae'r safle yn cael ei ddefnyddio fel **maes profi** ar gyfer dulliau newydd y gellir eu cyflwyno wedyn ar draws safleoedd eraill. Er mwyn sicrhau llwyddiant maent yn:

- Sicrhau bod yr holl staff a'r gymuned yn teimlo'n rhan o'r broses o wneud penderfyniadau a dod o hyd i syniadau o bob rhan o'r sefydliad.
- Cyfathrebu'n glir y newidiadau sy'n digwydd, drwy gylchlythyrau a sesiynau 'cerdded a sgwrsio' amser cinio sy'n amlinellu'r gwaith sy'n cael ei wneud a chyfathrebu'r weledigaeth hirdymor.
- Ymgynghori a phartneru â sefydliadau arbenigol i gynnal arolygon, cynyddu gwybodaeth ac agor cyfleoedd a phosibiliadau newydd ar gyfer datblygu – e.e. mae CEDaR wedi'u lleoli yn Amgueddfa Werin Ulster ac maent yn gweithio'n agos gyda'r *Gwirfoddolwyr Cadwraeth* sy'n rheoli'r feithrinfa goed.

Astudiaethau achos

Maes Brwydr Prestonpans

Mae heriau mawr yn wynebu Prestonpans, o ganlyniad i wahanu corfforol y maes brwydr a'r amgueddfa a'r ffaith nad yw'r maes brwydr yn eiddo uniongyrchol yr amgueddfa.

Er gwaethaf hyn, maent yn rheoli eu tir yn llwyddiannus trwy **ymgysylltu â'r gymuned a chynnal perthynas gadarnhaol â'r awdurdod lleol** i sicrhau cynnal a chadw'r mannau awyr agored.

Camau gweithredu a chanlyniadau allweddol oedd:

- Ymgysylltu â datblygwyr tai lleol, i sicrhau bod y maes brwydr wedi'i ymgorffori yng nghof y gymuned leol trwy enwi strydoedd, gan gadarnhau rôl i hanes yn y presennol.
- Datblygu ap cerdded i arwain ymwelwyr o amgylch y maes brwydr – i leihau'r angen am dywyswyr teithiau gwirfoddol a defnyddio marcwyr i dynnu cysylltiadau rhwng y mannau allanol a'r amgueddfa.

Ty a Gerddi Hanesyddol Ushaw

Mae Tŷ a Gerddi Hanesyddol Ushaw wedi ymgysylltu â sefydliadau ac unigolion **y tu hwnt i'w rhwydwaith traddodiadol** eu hunain i ddod â syniadau newydd a hwyluso cyfathrebu a rhannu gwybodaeth ymhellach.

Mae hyn wedi cynnwys:

- Gweithio gyda Phrifysgol Durham i weld sut y gallent gefnogi ei gilydd i gyflawni eu nodau cysylltiedig, gan sefydlu partneriaeth a fydd yn fuddiol i'r ddwy ochr.
- Ymgysylltu ag asiantau tir a thirfeddianwyr lleol i ddysgu mwy am hanes y dirwedd a chasglu mewnwelediad i fwy o gyfleoedd ariannu.
- Gweithio gyda gwirfoddolwyr sydd â diddordebau amrywiol i sefydlu coetir cymunedol, a fydd yn cael ei gynnal trwy fewnbwn cymunedol ac yn sicrhau dyfodol gwirfoddoli ar y safle trwy ymgysylltu â phobl iau a rhoi ymdeimlad o berchnogaeth i'r gymuned.

Astudiaethau achos

Amgueddfa Hanes Naturiol

Mae'r Amgueddfa Hanes Naturiol (AHN) yn cymryd yr awenau, nid yn unig trwy ddatgan argyfwng hinsawdd ond hefyd trwy **gefnogi amgueddfeydd a sefydliadau treftadaeth eraill** trwy gydweithio ar y rhaglen "Fixing Our Broken Planet".

Er efallai na ellir ailadrodd y camau a gymerir gan AHN ar draws y mwyafrif o amgueddfeydd, maent yn awyddus i gefnogi sefydliadau eraill a rhannu eu gwybodaeth.

Yn AHN maent:

- Wedi dylunio a cherfio eu mannau awyr agored i greu taith gerdded trwy amser, lle mae ymwelwyr yn gallu cerdded trwy'r ardd a gweld sut mae'r Ddaear wedi newid a chael synnwyr o gwmpas 'amser dwfn'.
- Maent hefyd wedi creu gardd addysgol sy'n canolbwyntio'n fwy ar ymgysylltu â phobl ifanc a chreu safle ar gyfer gwyddoniaeth dinasyddion, cyfrannu at ac annog eraill i gyfrannu at gronfa ddata fyd-eang o gasglu a monitro data amgylcheddol.

Wheal Martyn

Mae Wheal Martyn yn tynnu sylw at bwysigrwydd cael **cynllun aml-linyn a hyblyg** ar gyfer rheoli tir, sy'n gallu addasu i argaeledd gwirfoddolwyr a'r tywydd.

Mae Wheal Martyn yn disgrifio eu cynllun rheoli tir fel **cymysgedd o ffurfiol ac anffurfiol sy'n caniatáu addasu i'r amgylchedd naturiol** a'i anrhagweladwyedd cynhenid.

Mae eu cynllun:

- Yn ymgorffori pob elfen o'u safle – adeiladau, canolfan ymwelwyr, henebion, a'r mannau awyr agored.
- Mae'n cynnwys 19 o brosiectau sy'n cwmpasu casgliadau, adeiladau, dehongli, ardaloedd chwarae, llwybrau natur, cynllun gweithredu cynefinoedd a rhywogaethau a'r archwiliad mynediad sy'n cael ei ddiweddarau'n barhaus.
- Mae eu cynlluniau yn cael eu hadolygu ac yn newid yn gyson, mae'r rhain yn cael eu tynnu at ei gilydd mewn ffordd gymharol anffurfiol o ddydd i ddydd. Mae'r strategaeth safle gyfan yn ddogfen gyffredinol gyda ffocws pum mlynedd, sy'n rhoi cyfeiriad a phwrpas cyffredinol, ond mae sut mae hyn yn cael ei weithredu o ddydd i ddydd yn fwy anffurfiol a hyblyg.

Cyfeiriadau a ddefnyddiwyd:

1. King, E., Smith, M.P., Wilson, P.F. and Williams, M.A. (2021), Digital Responses of UK Museum Exhibitions to the COVID-19 Crisis, March – June 2020. Curator, 64: 487-504. <https://doi.org/10.1111/cura.12413>
2. Heritage Pulse (January 2024) https://heritagepulse.insights-alliance.com/updates/spotlight-on-budget-pressures/#The_impact_of_budget_pressures_is_yet_to_be_fully_felt_with_organisations_making_more_cuts_to_planned_programmes_services_access_and_facilities
3. Loach, K., Rowley, J., & Griffiths, J. (2017). Cultural sustainability as a strategy for the survival of museums and libraries. International Journal of Cultural Policy, 23(2), 186–198. <https://doi.org/10.1080/10286632.2016.1184657>
4. Stylianou-Lambert, T., Boukas, N., & Christodoulou-Yerali, M. (2014). Museums and cultural sustainability: stakeholders, forces, and cultural policies. International Journal of Cultural Policy, 20(5), 566–587. <https://doi.org/10.1080/10286632.2013.874420>
5. ICOM 2024 <https://icom.museum/en/research/sustainability-and-local-development/>
6. Thomson L, Morse N, Elsdon E, Chatterjee H. Art, nature and mental health: assessing the biopsychosocial effects of a ‘creative green prescription’ museum programme involving horticulture, artmaking and collections. Perspectives in Public Health. 2020;140(5):277-285. doi:10.1177/1757913920910443
7. NMDC - <https://www.nationalmuseums.org.uk/what-we-do/climate-crisis/green-museums/>
8. English Heritage – Kings Meadows - <https://www.english-heritage.org.uk/visit/inspire-me/100-meadows/>
9. Curating Tomorrow - Supporting museums and similar institutions- <https://curatingtomorrow.co.uk/> -

Mae M·E·L Research yn cynnal yr ardystiadau a'r achrediadau canlynol



Diolch!

I drafod sut y gall M·E·L Research gefnogi eich sefydliad defnyddiwch y manylion cyswllt canlynol os gwelwch yn dda :



elliott.simmonds@melresearch.co.uk



0121 604 4664



www.melresearch.co.uk



Somerset House, 37
Temple St, Birmingham
B2 5DP



[@MELResearch](https://twitter.com/MELResearch)



[MEL Research](https://www.linkedin.com/company/mel-research)